M04/156/S(2)

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Tuesday 11 May 2004 (morning)
Mardi 11 mai 2004 (matin)
Martes 11 de mayo de 2004 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works, will not score high marks.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Ne pas ouvrir cette épreuve avant d'y être autorisé.
- Traiter un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.

*Ysgrifennwch draethawd yn ateb i* ***un*** *o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol. Ni roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** *Naill ai*

(a) "Mae barddoniaeth yn ddrych i'r gymdeithas y mae'n deillio ohoni." Yng ngoleuni'r gosodiad hwn, trafodwch berthynas y bardd â'i gymdeithas yn y cerddi a astudiwyd gennych.

*neu*

(b) A gytunwch mai yn ymateb y ddau i'w waith, y darllenydd a'r gwrandawr, y gorwedd hanfod llwyddiant bardd? Trafodwch eich ymateb i'r cerddi a oedd yn rhan o'ch astudiaeth, a cheisiwch egluro beth yn y gweithiau a barodd ichi ymateb yn y modd hwnnw.

**Drama**

**2.** *Naill ai*

(a) I ba raddau y mae'r modd yr arweinia'r naill ddigwyddiad at y llall yn bwysig yn y dramâu a ddewiswyd gennych i'w hastudio? I ba raddau y mae gan y cymeriadau reolaeth dros y digwyddiadau sy'n dilyn, a hwythau'n gyfrifol amdanynt? Sut y ceisiant wneud defnydd o'u dylanwad?

*neu*

(b) 'Yn aml, cais drama beri i'r gynulleidfa eu huniaethu eu hunain â chymeriad neu â chymeriadau, a thrwy hynny deuant i ddeall agweddau newydd ar gymhlethdod bywyd a'r modd i'w hwynebu.' Cymherwch y modd y cyflwynwyd y prif gymeriadau yn y dramâu y buoch chi'n eu hastudio, ac eglurwch a deimlwch i chi gael golwg newydd ar fywyd drwyddynt?

**Nofelau**

**3.** *Naill ai*

(a) Pa dechnegau a ddefnyddir gan nofelwyr i ddarlunio eu cymeriadau a'u natur, ac i ba effaith? Ymdriniwch â'r rhain yng nghyd-destun y nofelau y buoch chi'n eu hastudio.

*neu*

(b) "Nid yr un peth â dweud stori yw ymdrin â thema, a chan amlaf mae thema nofel yn elfen fwy sylfaenol yn ei gwneuthuriad nag ydyw'r stori a adroddir ynddi." Yng ngoleuni'r sylw hwn, ystyriwch y gwahanol themâu sydd yn y nofelau a oedd wedi eu dewis gennych i'w hastudio, a'r modd y datblygwyd hwy gan y nofelwyr.

**Storïau Byrion**

**4.** *Naill ai*

(a) "Ymddengys mai'r difrifol a'r prudd, yn hytrach na'r ysgafn a'r llon, sydd yn mynd â bryd y rhan fwyaf o awduron straeon byrion." I ba raddau y mae hyn yn wir yn achos y storïau byrion a ddewiswyd gennych chi?

*neu*

(b) Yn y storïau byrion a ddarllenwyd gennych, a gawsoch fod y cymeriadau'n greadigaethau gwrthrychol, neu a wnaethoch ganfod bod yr awdur yn ymagweddu'n oddrychol at ei gymeriadau?

**Hunangofiannau a Chofiannau**

**5.** *Naill ai*

(a) "Gall cofiannau a hunangofiannau ymdrin â phethau nad ydynt o fawr bwys i neb ond i wrthrych y gwaith; yr hyn sy'n hanfodol, fodd bynnag, yw eu bod yn tynnu'r darllenydd i mewn i fywyd ac i gymdeithas rhywun arall." Gan gyfeirio at y gweithiau a astudiwyd gennych, ystyriwch a gawsoch chi eich tynnu i mewn i fywyd ac i gymdeithas arall, ac os felly, sut, ac i ba effaith?

*neu*

(b) Gyda golwg ar y gweithiau a oedd yn rhan o'ch astudiaeth, trafodwch pa mor ganolog i'r cofiannau/hunangofiannau yw'r awyrgylch a'r teimlad a grewyd gan yr awduron. Sut y llwyddwyd i greu'r awyrgylch a'r teimlad hwnnw, a pha effaith a gafodd hyn arnoch chi?

**Cyffredinol**

**6.** *Naill ai*

(a) Trafodwch y syniadau pwysicaf a gyfleir yn y gweithiau llenyddol a ddarllenwyd gennych, a dadansoddwch y dulliau a ddefnyddiwyd gan y gwahanol awduron i ddarbwyllo eu darllenwyr i dderbyn y syniadau hyn.

*neu*

(b) "Wrth agor, rhaid i unrhyw waith llenyddol ennyn diddordeb neu chwilfrydedd y darllenydd a'i ysbarduno i fynd yn ei flaen." Ymdriniwch â phwysigrwydd ac effaith yr agoriad yn y gweithau llenyddol a oedd yn rhan o'ch astudiaeth. Pa elfennau yn yr agoriadau a oedd yn eich ysbarduno i ddarllen ymhellach?

*neu*

(c) "Amcan pob llenor yw dylanwadu ar feddwl ei gynulleidfa." Wrth ichi astudio eich testunau gosod, a gawsoch fod hyn yn wir, ac os felly, sut y llwyddai'r llenorion i gyrraedd eu nod, a pha ddylanwad a gawsant arnoch chi?

*neu*

(ch) "Gall gwrthdaro mewn llenyddiaeth gael ei gyfleu mewn gwahanol ffyrdd: rhwng gwahanol garfannau o fewn y gymdeithas, neu rhwng unigolion, neu hyd yn oed o fewn meddwl cymeriadau unigol." Rhowch sylw i'r gwahanol fathau o wrthdaro a gawsoch yn eich dewis weithiau, sut y cawsant eu cyfleu a'r effaith a gawsant arnoch chi fel darllenydd.